LISTEN ENGAGE REPRESENT

WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

**Cystadleuaeth Ryngwladol Loughborough 2019**
**Mai 19fed 2019, Loughborough, y Deyrnas Unedig**
**Polisi Dethol – cyhoeddwyd mis Ebrill 2019**

## Golwg Gyffredinol

Amcan cyffredinol y rhaglen gystadlaethau ryngwladol yw paratoi athletwyr Cymru ar gyfer perfformio hyd eithaf eu gallu mewn digwyddiadau Uwch Bencampwriaeth pwysig (e.e Gemau'r Gymanwlad). Fel rhan o'r strategaeth honno, mae Athletau Cymru'n ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cystadlu rhyngwladol i athletwyr datblygol ac uchelgeisiol Cymru.

Categoreiddir cystadlaethau rhyngwladol fel un o'r canlynol:

1. **Gornestau Rhyngwladol** (lle rhoddir tîm Cymru ar y maes mewn gornest gystadleuol yn erbyn timau eraill)
2. **Cystadlaethau Rhyngwladol Tramor** (cystadleuaeth ryngwladol tramor sy'n rhoi amgylchedd ffafriol i athletwyr o'r safon briodol allu perfformio'n dda)

Categoreiddir Cystadleuaeth Ryngwladol Loughborough fel Gornest Ryngwladol.

## Nod y Polisi Dethol

Bydd y panel dethol yn ceisio dethol y tîm gorau posibl i gynrychioli Cymru.

## Cymhwysedd Athletwyr

Er mwyn cael eu hystyried i gael eu dethol, rhaid i'r athletwyr fodloni'r canlynol:

1. Bod yn gymwys i gystadlu i Gymru drwy un ai:
    a. Genedigaeth
    b. Tras
    c. Wedi cystadlu ar sail preswyliad yn y gorffennol
    ch. Preswyliad (o leiaf 2 flynedd)
2. Bod wedi cyrraedd  safon ddethol Gornest Ryngwladol

**Ffurf y Gystadleuaeth**

Yn 2019, mae'r rhaglen hon yn golygu bod cystadleuaeth grŵp oedran hŷn i Gymru (1 i bob digwyddiad) yn erbyn timau o Loegr, yr Alban, athletwyr Prifysgol Loughborough a thîm Ieuenctid y DU.

Bydd cystadlaethau ar gyfer y gornestau canlynol:

Dynion

100m, 200m, 400m, 800m, 1500m, 3000m, Clwydi 110m, Clwydi 400m, Ffos a Pherth 3000m, 4x100m, 4x400m, Naid Hir, Daid Driphlyg, Naid Uchel, Naid Bolyn, Taflu Maen, Disgen, Morthwyl, Gwaywffon

Menywod

100m, 200m, 400m, 800m, 1500m, 3000m, Clwydi 100m, Clwydi 400m, Ffos a Pherth 3000m, 4x100m, 4x400m, Naid Hir, Daid Driphlyg, Naid Uchel, Naid Bolyn, Taflu Maen, Disgen, Morthwyl, Gwaywffon

**Meini Prawf Dethol**

I gael eu hystyried i gael eu dethol , rhaid i athletwyr fod wedi cyrraedd Safon Gornest Ryngwladol D20 neu D18 (dan do neu awyr agored) (gweler y ddogfen ar wahân sydd wedi ei chynnwys ar wefan Athletau Cymru rhwng Mai 1af 2018 a Mai 6fed 2019.

**Amodau**

Rhaid i gyflawniad y safonau Gornest Ryngwladol gydymffurfio â'r gofynion canlynol:

1. Rhaid cyrraedd y safon mewn cystadlaethau a drefnir gan neu a awdurdodir gan yr IAAF, Cymdeithasau'r Ardal neu Ffederasiynau ei Aelodau Cenedlaethol
2. Ni fydd perfformiadau a gynorthwyir gan y gwynt (neu berfformiadau lle nad oedd mesuriad y gwynt ar gael) yn cael eu derbyn
3. Ni fydd perfformiadau yn y 100m, 200m, 400m, Clwydi 110m, Clwydi 400m a amserir â llaw yn cael eu derbyn
4. Bydd perfformiadau dan do yn cael eu derbyn ar gyfer bob digwyddiad

**Y Broses Ddethol**

Bydd y cyfarfod dethol yn cael ei gynnal ddydd Mawrth Mai 7fed 2019. Bydd y Panel Dethol Rhyngwladol ("y Panel") yn cynnwys 5 aelod sy'n pleidleisio (2 aelod o'r tîm Hyfforddi a Pherfformiad, 2 aelod annibynnol a enwebir gan y pwyllgor Trac a Maes ac 1 o'r rheolwyr tîm enwebedig ar gyfer y digwyddiad) ac arsylwr annibynnol (nad yw'n pleidleisio).
Nid oes rhwymedigaeth i lenwi bob un o'r safleoedd sydd ar gael.

Ni fydd dethol awtomatig yn digwydd ar gyfer y digwyddiad hwn, ac er mwyn dod i'w benderfyniad, bydd y Panel yn ystyried y canlynol (nid yn nhrefn blaenoriaeth):

1. Safon bresennol (perfformiad gorau tymor 2019 a chryfder y perfformiadau uwchben y safon ddethol)
2. Safon 2018 (perfformiad a chryfder y perfformiad uwchben y safon ddethol)
3. Potensial ar gyfer y dyfodol ar lefel uwch (a chynnydd/datblygiad cysylltiedig)
4. Recordiau cystadleuol benben
5. Perfformiadau blaenorol/eraill mewn Pencampwriaethau
6. Statws anafiadau
7. Athletwyr sy'n cefnogi Athletau Cymru
8. Unrhyw ffactorau eraill sydd, ym marn y panel, yn rhoi'r cyfle gorau i Gymru lwyddo yn yr ornest

Bydd yr athletwyr a gaiff eu dethol yn cael eu hysbysu drwy e-bost erbyn dydd Mercher, Mai 8fed. Bydd y tîm yn cael ei gyhoeddi ddydd Llun Mai 13ydd.

Mae Athletau Cymru'n ymrwymo i gynnig cyfleoedd cyfartal i bob athletwr yng Nghymru. Mae unrhyw athletwr yn gymwys i gael ei ddethol a bydd unrhyw athletwr yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses ddethol, ar yr amod eu bod wedi cyflawni popeth sydd wedi ei egluro yn y polisi dethol hwn. Ni fydd Athletau Cymru'n gwahaniaethu wrth ddewis unrhyw athletwr ar sail unrhyw nodwedd warchodedig.

**Y Broses Apelio**

Ni fydd hawl i apelio yn erbyn y tîm a ddetholir gan y Panel.

**Y Broses Ddad-ddethol**

Gallai athletwr gael ei ddad-ddethol ar sail:

1. Methiant i fodloni'r protocolau profi ffitrwydd safonol
2. Methiant i gydymffurfio â chod ymddygiad athletwyr Athletau Cymru

Os bydd athletwr yn cael anaf ar ôl derbyn ei safle ar y tîm, mae'n ofynnol iddo/iddi roi gwybod i Arweinydd y Tîm ar unwaith.

**Cadarnhau Staff y Tîm**

Bydd y safleoedd canlynol yn cael eu cadarnhau gan y Panel ar ôl i'r athletwyr gael eu dethol:

1. Arweinydd Tîm
2. Rheolwyr Tîm
3. Hyfforddwyr Tîm
4. Staff Meddygol y Tîm

**Diwygiad**

Ceidw Athletau Cymru yr hawl i ddiwygio'r Polisi Dethol hwn yn ôl ei ddisgresiwn llwyr a bydd yn sicrhau bod unrhyw fersiwn ddiwygiedig ar gael yn gyhoeddus (gan gynnwys y dyddiad y gwnaed y diwygiad) yn www.welshathletics.org